

**ORIEL YNYS MÔN**  
**TELERAU AC AMODAU ARDDANGOS**  
**Y BRIF ORIEL GELF**

**1. Cludo ac Yswirio arddangosfeydd**

- 1.1** Bydd yr artist/artistiaid unigol yn gyfrifol am wneud trefniadau i gludo gwaith i Oriel Ynys Môn ac oddi yno ar eu cost eu hunain. Rhaid danfon y gwaith i'r oriel erbyn dydd Mawrth yr wythnos gyfnewid a heb fod yn hwyrach na 11.00am. Dim ond mewn amgylchiadau arbennig y bydd cludiant yn cael ei drefnu gan yr oriel, megis ar gyfer arddangosfeydd teithiol. Mewn sefyllfa o'r fath, bydd Oriel Ynys Môn yn yswirio'r gwaith tra bo'r gwaith hwnnw'n cludo. Mewn pob amgylchiad, ar wahân i sioeau celf unigryw, bydd Oriel Ynys Môn yn yswirio'r gwaith am y cyfnod y bydd yn yr oriel.
- 1.2** I ddibenion yswiriant, bydd yr Oriel angen gwybod gan yr artist sawl eitem o waith fydd yn cael eu harddangos, cyfanswm gwerth yr holl weithiau a gwerth gwaith drytaf. Bydd yr Oriel angen y wybodaeth hon fis cyn cychwyn yr arddangosfa.

**2. Comisiwn ar Werthu**

- 2.1** Mae Oriel Ynys Môn yn codi comisiwn o 30% + TAW (i'w adolygu bob blwyddyn) mewn perthynas â'r holl weithiau a werthir yn ystod arddangosaf. Dylai'r artist felly cadw hynny mewn cof wrth brisio gwaith. Mae croeso i artistiaid drafod lefelau prisio gyda'r Swyddog Celfyddydau os ydynt yn ansicr o gwbl.
- 2.2** Os bydd artist yn penderfynu trafod pris gwahanol am waith gyda chwsmwr yn ystod arddangosfa, bydd Oriel Ynys Môn yn parhau i seilio ei gomisiwn ar y

pris gwerthu gwreiddiol. Telir am yr holl weithiau a werthir ar ddiwedd yr arddangosfa, ar ôl cael taliad llawn gan y prynwyr, fel arfer cyn pen mis.

### 3. Trefnu'r Arddangosfa a rhoi darluniau i fyny

- 3.1 Yr artist/artistiaid a staff cymwys yr oriel fydd yn gosod yr arddangosfa yn ystod dydd Mawrth yr wythnos gyfnewid; rhaid i'r holl weithiau fod yn eu safle, yn barod i gael eu hongian heb fod yn hwyrach na phrynhawn dydd Mercher yr wythnos gyfnewid. Bydd y gwaith o hongian yr arddangosfa yn cael ei wneud gan staff yr oriel yn unig, oni bai bod y gwaith yn gofyn am fewnbwn gosod penodol gan yr artist.
- 3.2 **RHAID** i'r holl waith gyrraedd yr Oriel yn barod i'w osod, h.y. gyda phlatiau drych wedi eu gosod yn gywir (canol y naill ochr a'r llall i'r ffrâm). Fel arall codir ar yr artist am osod platiau drych.
- 3.3 Rhaid anfon rhestr o weithiau at y Swyddog Celf ddau fis cyn i'r arddangosfa gychwyn. Dylai'r wybodaeth gynnwys: Teitl y gwaith/Cyfrwng/Pris (gan gynnwys ein comisiwn 30% + TAW). Bydd raid rhifo a labelu pob darn o waith yn glir ar y cefn gan gynnwys: enw'r artist/Teitl y gwaith/Cyfrwng/Pris. **NODER OS GWELWCH YN DDA**, bydd raid rhifo'r rhestr o weithiau'n gywir i gyd-fynd gyda'r labelau ar gefn y gweithiau.
- 3.4 Mae Cyngor Sir yn glynu wrth bolisi dwyieithrwydd caeth ac felly bydd raid anfon datganiadau gan yr artist, neu unrhyw is-destun ar gyfer yr arddangosfa, at y Swyddog Celf ddau fis cyn cychwyn yr arddangosfa. Bydd raid cael cyfieithu unrhyw destun a gynhyrchir ar ôl y dyddiad cau dau fis yn broffesiynol ar gost yr artist.
- 3.5 Rhaid i artistiaid sydd â diddordeb mewn cynnal gweithdai neu sgysiau i gyd-fynd gyda'u harddangosfa gysylltu gyda'r Swyddog Celf 3 mis cyn eu harddangosfa.

- 3.6** Rhaid i'r artistiaid unigol fframio gwaith dau ddimensiwn yn addas ar eu cost eu hunain. Rhaid marcio pen uchaf gwaith anghynrychioliadol a haniaethol yn glir. Mae hyn yn wir hefyd am sleidiau a ffotograffau a anfonir i'r Oriol.
- 3.7** Ar ddiwedd yr arddangosfa, mae gan yr oriel yr hawl i ofyn i'r artist gynorthwyo gyda'r gwaith o bacio'r lluniau.
- 3.8** Oherwydd diffyg lle, rhaid i'r artist neu gludwr perthnasol gasglu'r lluniau ar y prynhawn Llun cyntaf ar ôl i'r arddangosfa ddod i ben. Oni fydd hynny'n cael ei wneud codir ar yr artist am storio'r gwaith.
- 3.9** Nid oes gan Oriol Ynys Môn gyllid digonol i gynhyrchu catalogau ar gyfer arddangosfeydd. Ymhellach, nid yw Oriol Ynys Môn yn gwneud cais am gyllid ar ran artistiaid unigol neu grwpiau o artistiaid ar gyfer cyhoeddi catalogau.
- 3.10** Gall artistiaid sy'n dymuno gwerthu nwyddau ochr yn ochr â'u harddangosfa wneud hynny am gyfnod yr arddangosfa yn unig. Ystyrir printiadau, cardiau cyfarch, cardiau post a chatalogau ar gyfer eu gwerthu. Mae codi comisiwn 30% + TAW ar y comisiwn. Dylid cynnwys hyn ymhob pris gwerthu a roddir gan yr artist. Telir am yr holl nwyddau a werthir ar ddiwedd yr arddangosfa a bydd y taliad fel arfer yn cymryd o gwmpas 2-3 wythnos i'w brosesu. Tynnir yr holl nwyddau o'r siop a'i ddychwelyd i'r artist ar ddiwedd yr arddangosfa.

#### **4. Agor Arddangosfeydd**

- 4.1** Bydd agoriad pob arddangosfa ar ffurf 'cyfarfod a chyfarch' yr artist(wyr), ac fe'i cynhelir rhwng 12.00pm a 2.00pm ar ddydd Sadwrn cyntaf yr arddangosfa.
- 4.2** Pe bai'r artist(artistiaid) yn dymuno cael rhywun i agor eu harddangosfa yn swyddogol, fe allant drafod hyn gyda'r Swyddog Celf o leiaf 3 mis cyn dechrau'r arddangosfa.

**4.3** Dylai artistiaid sy'n dymuno cael lluniaeth ysgafn yn ystod eu hagoriad gysylltu â Gwenan Rowlands yng Nghaffi Blas Mwy yn Oriol Ynys Môn ar: 01248 751516.

## **5. Defnyddio Gwagle Arddangos**

**5.1** Mae Oriol Ynys Môn yn cadw'r hawl i gynnal digwyddiadau, cynadleddau a chyfarfodydd yn yr Oriol Gelf, gan sicrhau bob amser fod y casgliad yn cael ei arolygu'n a'i ddiogelu bob amser. Fe all Oriol Ynys Môn hefyd letya arddangosfeydd llai neu leoli 'Cert Gelf' yn ardal fewnol yr Oriol Gelf i gydredeg â'r brif arddangosfa. Bydd rhybudd yn cael ei roi ymlaen llaw am bob digwyddiad o'r fath i'r prif arddangoswr/wyr lle mae hynny'n bosibl.

## **6. Marchnata Arddangosfeydd**

**6.1** Oriol Ynys Môn sy'n gyfrifol am farchnata'r holl arddangosfeydd.

Mae ein Pecyn Marchnata'n cynnwys y canlynol :

- Datganiadau i'r Wasg
- Posterï
- Gwahoddiadau i Agoriadau ( Dim mwy na 150)
- Oriol Ynys Môn – Taflen Arddangos a Digwyddiadau
- Gwefannau

**6.2** Bydd cyllideb benodol yn cael ei dyrannu ar gyfer marchnata pob arddangosfa.

**6.3** Mae croeso i artistiaid drafod pob agwedd o farchnata eu harddangosfa gyda'r Swyddog Celf. Rhaid gwneud hyn 3 mis cyn dyddiad agor yr arddangosfa.

- 6.4** Bydd rhaid i'r holl artistiaid roi CV cyfredol, datganiad personol a manylion am yr arddangosfa (y gellir eu defnyddio mewn unrhyw ddatganiadau i'r wasg) i'r Swyddog Celf 6 mis cyn blwyddyn eu harddangosfa).
- 6.5** Rhaid i'r holl artistiaid hefyd ddarparu o leiaf 6 delwedd o'r gwaith fydd yn cael ei arddangos o leiaf 6 mis cyn blwyddyn eu harddangosfa.

Mae'r Swyddog Celf ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener (9.00am – 5.00pm)

Ffôn: 01248 752014 / 01248 724444

E-bost: [NicolaGibson@anglesey.gov.uk](mailto:NicolaGibson@anglesey.gov.uk)

Os ydych yn cytuno i'r telerau a'r amodau hyn, a fydddech cystal os gwelwch yn dda â llofnodi a dychwelyd y slip yn yr amlen bwrpasol sydd wedi ei darparu ar eich cyfer (dim angen stamp).

**ORIEL YNYS MÔN – TELERAU AC AMODAU ARDDANGOS:  
Y BRIF ORIEL GELF**

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen y Telerau a'r Amodau uchod ac cytuno iddynt.

Llofnod (Artist) .....

Printio Enw (Artist) .....

Llofnod (Swyddog y Celfyddydau) .....

Dyddiad.....

